## Yr Her:

Rhedwch, rhedwch ar ddwy goes - dyma stori draddodiol sy'n gyfarwydd i bawb.
Gobeithio byddwch yn mwynhau cwblhau'r gweithgareddau isod yn ystod y pythefnos nesaf.



## Pwyntiau trafod i rieni:

- Ydych chi yn gallu siarad am unrhyw stori?
- Pa gymeriadau sydd yn y stori yma?
- Pa un yw eich hoff gymeriad?
- Pa stori yw eich hoff stori a pham?

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Nid da lle gellir gwell

# Y Bachgen Bach Toes (Meithrin/Derbyn)

## Rhaid gwneud...

| | | |
|---|---|---|
| • Adnabod llythrennau wyddor<br>• Ymarfer ffurfio llythrennau'r wyddor<br>• Ymarfer ffurfio enw/cyfenw<br>• Darllen yn reolaidd- darllen a gwrando ar storïau Ymarfer canu caneuon / hwiangerddi | • Ymarfer adnabod rhifau<br>• Ymarfer ffurfio rhifau<br>• Adrodd rhifau yn eu trefn – ymlaen ac yn ôl<br>• Adio a thynnu ymarferol | • Joe Wicks - sesiynau ar 'You Tube' (Cofiwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')<br>• Cosmic Kids Yoga – sesiynau ar 'YouTube'<br>• Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.<br>• Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd. |

## Dylech wneud...

| Llythrennedd | Rhifedd | Thema |
|---|---|---|
| Ewch ati i dynnu llun o'r cymeriadau yn stori Y Bachgen Bach Toes. Ydych chi yn gallu copio/ysgrifennu enwau'r cymeriadau yn y stori neu beth am greu brawddegau syml e.e Dyma'r Bachgen Bach Toes. | Mae gan y Bachgen Bach Toes par o goesau- ydych chi'n gallu meddwl am bethau eraill sydd yn dod mewn parau e.e.menig/sanau/esgidiau. Beth am chwarae gêm lle mae'n rhaid i chi ddosbarthu sanau/ esgidiau aelodau'r teulu mewn i barau. Sawl pâr sydd gyda chi? | Mae'r Bachgen Bach Toes yn gallu rhedeg yn gyflym-does neb yn gallu ei ddal. Ydych chi yn gallu rhedeg yn gyflym/yn gyflymach nag aelodau eraill o'r teulu? Beth am greu ras yn yr ardd. Meddyliwch am ffyrdd eraill o symud e.e neidio/hercian/ bownsio fel cangarŵ. |
| Ydych chi'n gallu adrodd stori Y Bachgen Bach Toes gyda chymorth oedolyn. Ydych chi'n cofio beth sy'n digwydd ar ddechrau'r stori, yn y canol ac ar y diwedd? | Gyda chymorth oedolyn, ydych chi'n gallu ysgrifennu rhifau hyd at 5/10/20/100 ar amlinelliad o fachgen bach toes? Beth am ofyn i oedolyn i guddio rhain o amgylch yr ystafell fyw/yr ardd/sawl un allwch chi ddarganfod/beth am geisio eu trefnu? | Ydych chi'n gallu adeiladu pont er mwyn helpu'r bachgen bach toes i groesi'r afon yn ddiogel. Edrychwch ar luniau o bontydd ar y we. Beth am ddefnyddio blociau/bocsys/papur newydd wedi rholio i fyny. Ydy eich pont yn gryf? Sut allwch chi ei wneud yn gryfach? |
| Mae'r Bachgen Bach Toes yn dechrau gyda'r lythyren Bb. Ydych chi'n gallu ffurfio'r lythyren yma? Pa un yw'r briflythyren? Ydych chi'n gallu meddwl am enw plentyn/lle sy'n dechrau gyda'r briflythyren B? Chwiliwch o gwmpas y tŷ/ardd am bethau sy'n dechrau gyda b. | Cymesuredd-beth am greu templed o'r bachgen bach toes a rhoi yr un nifer o fotymau ar bob ochr o'i fol? Sawl patrwm allwch chi greu? Beth am beintio smotiau gyda'ch bysedd ac yna plygu'r bachgen bach toes mewn hanner er mwyn creu patrwm cymesur? Sawl smotyn sydd ar bob un? Ydych chi'n gallu adio'r smotiau? | Beth am ddefnyddio toes i greu pobl bach toes eich hunain? Cofiwch bod angen llygaid, trwyn a cheg arnynt. Sawl botwm sydd gan bob un? Cofiwch dynnu llun ohonynt i ddangos i ni, a'i rhannu ar HWB / Trydar. |

## Gallaf wneud...

| | | |
|---|---|---|
| Heriau LEGO<br>Calendr Caredigrwydd<br>Llyfrau sain David Walliams<br>Newsround - darllen y newyddion diweddaraf<br>Science Investigations – STEM website stemsational.com<br>Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim<br>www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd UKTWINKLHELPS<br>Zumba Kids | Minecraft<br>Cymuned y Sgarlets- Sgiliau Mathemateg<br>Carol Vorderman — 'My Maths School'<br>Cip ar Fathemateg<br>SGILIAU — gemau i'w chwarae adref/clwb ysgol ar Facebook<br>Orielodl - fideo cam wrth gam<br>Llifo'n Llawen – Yoga<br>Just Dance – 'Youtube' | Dawnsio gyda Oti Mabuse<br>PBSkids.org - Gemau Darllen i bl<br>BBC Bitesize<br>Hour of Code<br>Gwefan TopMarks Mathemateg<br>Gwefan MathsFrame Mathemate<br>mathsalamanders.com<br>Traed Bach Sionc (Busy Feet) – Youtube |

YSGOL GYMRAEG PARC Y TYWYN
Nid da lle gellir gwell

| | |
|---|---|
| Amser Stori Atebol – 'You Tube<br>Amser stori – Llyfrgelloedd Sir Gâr | Llyfrau Coeden Darllen Rydychen -HWB |